

HOPE, WILLIAM (fl. 1765), ' y Bardd Byddar '

Enw: William Hope

Ffugenw: Y Bardd Byddar

Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Barddoniaeth

Awdur: Evan David Jones

o Dre Fostyn ym mhlwyf Whitford, Sir y Fflint. Ni wyddys pa bryd y ganwyd ef na pha bryd y bu farw. Y mae'r cwbl sy'n hysbys amdano i'w gael mewn detholiad o waith beirdd siroedd Fflint a Dinbych a gyhoeddwyd ganddo, yn 1765, o dan y teitl, *Cyfaill i'r Cymro; neu, Lyfr o Ddiddanwch Cymhuysol, ei dowys Dyn ar Ffordd o Hyfrydwch; yn ganeuon, a charolau, ac englynion, hawddyw deull, o waith Prydyddion Sir y Flint a Sir Ddimbech, o gasgliad W. Hope o Dre Fostyn*. Argraffwyd y llyfr (148 tt.) yng Nghaerllon gan Read a Huxley, ac yr oedd ar werth gan W. Hope yn Sir y Fflint. Awgryma hyn y gallai W. Hope fod yn llyfrwerthwr teithiol. Ei gyfraniad ef i'r llyfr oedd dau englyn, rhagymadrodd, Carol Plygain, 1764, Cerdd yn erbyn Cybydd-dod, a Mawl i'r Prydyddion. Ar derfyn ei adran ef ei hun o'r gyfrol ceir y geiriau 'Terfyn Gwaith William Hope neu r Bardd Byddar.' Y mae'n weddol sicr mai camgyflead o argraffiad 1765 yw rhif 4 o dan 1769 yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, ac na fu ail argraffiad.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, o dan 1765 (17) a 1769 (4)

Y Cymro, 10 Medi 1930

Cymru (O.M.E.), 1925, 109-13

R. T. Williams, *Cymeriadau Hynod Sir Fflint* (1886), 1886

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734633](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734633)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

